***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 887 (Cy. 176)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Diwygio) 2018

*Gwnaed - - - - 19 Gorffennaf 2018*

*Yn dod i rym - - 2 Awst 2018*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 18(1), 203 a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), a pharagraff 5 o Atodlen 3 iddi, ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodir o dan adran 18(3) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) (Diwygio) 2018 a daw i rym ar 2 Awst 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y prif Orchymyn" yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993(**2**).

### Diwygio erthygl 1 o'r prif Orchymyn

**2.** Yn erthygl 1(2) o'r prif Orchymyn, yn y diffiniad o "the trust", yn lle "Velindre National Health Service Trust" rhodder "Velindre University National Health Service Trust".

### Diwygio erthygl 2 o'r prif Orchymyn

**3.** Yn lle erthygl 2 o'r prif Orchymyn, rhodder—

"**2. Establishment of the trust**

There is hereby established an NHS trust which shall be called Velindre University National Health Service Trust or Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre."

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) Fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/826; O.S. 2002/442 (Cy. 57); O.S. 2002/2199 (Cy. 219); O.S. 2009/2059 (Cy. 178); O.S. 2012/1262 (Cy. 157) ac O.S. 2017/912 (Cy. 223).

**Ymrwymiad addysgu sylweddol**

**4.** Ar ôl erthygl 4 o'r prif Orchymyn, mewnosoder—

"**4A. Significant teaching commitment**

(1) The trust is to be regarded as having a significant teaching commitment by virtue of paragraph 5(3)(b) of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**3**).

(2) One of the non-executive directors must be appointed from Cardiff University."

**Arbed**

**5.** Nid yw'r enw newydd y rhoddir effaith iddo gan reoliad 3—

(a) yn effeithio ar unrhyw hawl neu rwymedigaeth unrhyw berson; na

(b) yn annilysu unrhyw offeryn (pa un a'i gwnaed cyn, ar neu ar ôl y diwrnod y daw'r Gorchymyn hwn i rym) sy'n cyfeirio at Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre, a rhaid dehongli pob offeryn neu ddogfen arall sy'n cyfeirio at yr enw hwnnw fel pe bai'n cyfeirio at yr ymddiriedolaeth.

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Gorffennaf 2018

(**3**) 2006 p. 42.

---

**NODYN ESBONIADOL**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 ("y prif Orchymyn") er mwyn newid enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Felindre.

Gan y bydd gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre ymrwymiad addysgu sylweddol bellach, mae'r Gorchymyn yn pennu hyn ac yn diwygio'r prif Orchymyn ymhellach i ragnodi bod rhaid i un o'r cyfarwyddwyr anweithredol gael ei benodi o Brifysgol Caerdydd.